## PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Dref, Rhuthun ar ddydd Mercher 31ain Ionawr 2001 am 10.00 a.m.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr F.D. Jones (Cadeirydd), J. Butterfield, M.Ll. Davies, P. Douglas, A.E. Fletcher-Williams, I.M. German, K.N. Hawkins, J.R. Hughes, N.J. Hughes, R.W. Hughes, N. Hugh-Jones, G. Jones, M.M. Jones (Sylwedydd), P.M. Jones, R.E. Jones, R.J.R. Jones, E.A. Owens, F. Shaw, J.A. Smith, S. Thomas, W.G. Thomas, A.J. Tobin, W.R. Webb (Aelod Lleol), K.E. Wells, C.H. Williams, E.W. Williams ac R.Ll. Williams.

## HEFYD YN BRESENNOL

Clerc y Sir, Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio, Pen Swyddog Cynllunio (Y Gogledd), Pen Swyddog Cynllunio (Y De), Pennaeth priffyrdd a Chludiant (P. Brelsford) a Swyddog Gweinyddol (G. Butler).

## DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH

Y Cynghorwyr D.W. Davies, M.A. German, K.P. Stevens a P.O. Williams.

### 1017. CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio (a ddosbarthwyd eisoes) yn rhestru'r cynllu-niau a gyflwynwyd ac a oedd angen eu penderfynu gan y Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD***:-

*(a) cadarnhau argymhellion y Swyddogion fel a gynhwyswyd yn yr adroddiad a gyflwynwyd nawr a rhoi caniatâd cynllunio neu wrthod, fel y bo'r achos, fel y bo'n briodol dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Deddf Cynllunio a Iawndal, 1991, Rheolau Hysbysebion Cynllunio Gwlad a Thref, 1994 a/neu Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, i'r datblygiadau a gynigiwyd gan y cynlluniau canlynol, yn ddarostyngedig i'r amodau a nodwyd yn yr atodlen a gyflwynwyd nawr:-*

(i) Caniatâd

| Rhif y Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 01/2000/0956/PR | Manylion canolfan tenis a dderbyniodd ganiatâd cynllunio amlinell dan gôd rhif 01/135/98/PO yn Ysgol Howells, Dinbych.<br>YN AMODOL ar yr Amod Rhif 1 diwygiedig canlynol ac Amod newydd rhif 5 :-<br>1. Lliw y to a rhannau uchaf yr haenen plasticol fydd Moorland Green (HPS200) a'r cladin mur isaf fydd Svelte Grey (HPS200), neu liw arall a gymeradwyir yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol cyn cychwyn ar y datblygiad, ac ni chaniateir unrhyw addurn ffasgia neu amrywiad arall heb ganiatâd ysgrifenedig yr Awdurdod ymlaen llaw.<br>5. Ni ddylid defnyddio'r ganolfan nes bydd y mannau parcio a gymeradwywyd fel rhan o'r caniatâd cynllunio rhif côd 1/2000/776/PF wedi eu cynllunio a'u cwblhau.<br>RHESWM - i sicrhau bod digon o le parcio ar gyfer cerbydau defnyddwyr ac ymwelwyr mewn cysylltiad gyda'r datblygiad. |
| 05/2000/1027/PO | Datblygu tir trwy adeiladu annedd ac adeiladu mynediad newydd i gerbydau (cais amlinell) ar dir yn cyffinio Maesywaen, Carrog, Corwen.<br>Mae'r argymhelliad yn amodol ar gwblhau Ymrwymiad Adran 106 o fewn 6 mis o ddyddiad cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio, yn rheoli cost |

gychwynnol yr annedd (gan gynnwys pris gwerthu wedi hynny) ynghyd â meini prawf cymhwyso ar gyfer deiliadaeth yr annedd wedi hynny i bersonau sy'n diwallu gofynion meini prawf angen lleol Polisi H8. Os na chydymffurfir gyda'r ymrwymiad, ystyrid y cais yn erbyn polisïau perthnasol ac ystyriaeth berthnasol ar y pryd. Byddai'r dystysgrif penderfyniad cynllunio ond yn cael ei chyflwyno ar gwblhad yr Ymrwymiad Adran 106.
YN AMODOL ar ddileu Amod 4 ac ychwanegu Nodyn newydd i'r ymgeisydd:
1.Wrth baratoi'r cynlluniau manwl, gofynnir i chi ystyried sut y gellid gwneud darpariaeth amgen ar gyfer parcio cerbydau deiliaid eiddo Maes y Waen, mewn cysylltiad gyda'r datblygiad.

05/2001/0027/PF

(Cyn belled â na dderbynnir unrhyw gyflwyniadau pellach yn codi materion cynllunio nas trafodwyd yn yr adroddiad erbyn 2il Chwefror 2001. Ar ôl ystyried pedwar llythyr ychwanegol a dderbyniwyd oddi wrth Siambr Fasnach Corwen a'r Ardal, Cyngor Cymuned Corwen - yn gofyn am estyniad amser, Cyfarwyddiaeth Cludiant y Cynulliad Cenedlaethol a Chronfa Pafiliwn Corwen).
Dymchwel cyn lyfrgell a chanolfan ieuenctid ac adeiladu adeilad 2 lawr yn cynnwys 6 Uned Busnes yn y cynLyfrgell/Clwb ieuenctid, oddi ar Ffordd Llundain, Corwen.
YN AMODOL ar Amodau diwygiedig rhifau 3, 6 ac 8 a Nodyn newydd Rhif 1 i'r Ymgeisydd
3.Ni fydd cynllun y man parcio fel a ddangosir ar gynllun safle cyf AL(0) 05, ond yn unol â manylion a gymeradwyir yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol, i ddangos lefelau arfaethedig y safle, tirweddu, darpariaeth ar gyfer llwybrau cerdded yn y dyfodol i Gomin Corwen, a darpariaeth ar gyfer parcio cerbydau personau anabl.
6.Ni chaniateir datblygiad nes cyflwynwyd a chymeradwywyd yn ysgrifenedig, gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol, gynllun manwl o dirweddu caled a meddal ar gyfer y safle, a dylai'r cynllun gynnwys manylion:
(a) holl goed, gwrychoedd a llystyfiant arall presennol ar y tir, manylion y rhai i'w cadw, a mesurau i'w gwarchod tra'r aiff y datblygiad rhagddo.
(b) coed, gwrychoedd, prysgwydd neu lystyfiant newydd arfaethedig, gan gadarnhau rywogaethau, niferoedd a lleoliad ac amseriad arfaethedig y plannu.
(c)deunyddiau arfaethedig i'w defnyddio yn y maes parcio, llwybrau a mannau arwyneb caled eraill.
(d) gwaith cloddio arfaethedig, graddfeydd a thwmpathu'r tir a newidiadau mewn lefelau, amlinellau terfynol a pherthynas y twmpathau arfaethedig gyda llystyfiant presennol a'r tir o gwmpas.
(e) safleoedd, dyluniad, deunyddiau a math o ffiniau arfaethedig.
8.Ni chaniateir datblygiad nes bydd cymeradwyaeth ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi ei roddi o safbwynt gwaith maen a morter a lliw rendr a gorffeniad ar gyfer arwynebau allanol muriau'r adeiladau, ac ni ddylid defnyddio unrhyw ddeunydd ar wahân i'r hyn a gymeradwywyd.
NODYN I'R YMGEISYDD:
1.Tynnir eich sylw penodol at ofynion Amodau 3 a 6 y caniatâd hwn mewn perthynas â manylion cynllun y maes parcio a thirweddu'r safle.
2.Mae'r New Development Consultants wedi tynnu sylw at y garthffos gyhoeddus sy'n rhedeg trwy'r safle, a fydd angen ei hamddiffyn/gwyro a'i chadw gyda stribed rhyddfraint 3m. Dylid ond caniatáu i ddwr aflan arllwys i'r garthffos aflan.

15/2000/1046/PO

(Ar ôl ystyried un llythyr ychwanegol oddi wrth Gyd-Bwyllgor Ymgynghorol AHNE Bryniau Clwyd). Datblygu tir trwy adeiladu annedd

gweithwyr amaethyddol a gosod tanc septig newydd (cais amlinell) ar dir yn cyffinio Rhiw Iâl Farm, Back Road, Llanarmonyniâl, Yr Wyddgrug.
YN AMODOL ar Nodyn newydd i'r Ymgeisydd rhif 1:
1.Yn wyneb lleoliad y safle o fewn AHNE, gofynnir i chi drafod syniadau ar yr annedd arfaethedig gyda'r swyddog achos cyn cyflwyno cynlluniau manwl yn ffurfiol, yn enwedig i sicrhau graddfa, dyluniad a defnydd o ddeunyddiau sydd â safon uchel, ac sy'n sympathetig i'r ardal.

| | |
|---|---|
| 30/2000/0918/PO | (Ar ôl ystyried un llythyr ychwanegol oddi wrth Pennaeth Gwarchod y Cyhoedd).<br>Dymchwel ty annedd ac adeiladau a datblygu 0.45 hectar o dir i ddibenion preswyl (cais amlinell) yn yr Haven, Trefnant, Dinbych.<br>YN AMODOL ar Amod diwygiedig rhif 7, Amod newydd rhif 8 a Nodiadau newydd i'r Ymgeisydd, rhifau 1, 2 a 3.<br>7.Dileu “has”.<br>8. Ar ôl cwblhau unrhyw waith dadlygru a ystyrir ei fod yn angenrheidiol dan amod rhif 4, dylai'r datblygydd a/neu ei asiant cymeradwy arwyddo tystysgrif syn cadarnhau bod y gwaith dadlygru a gymeradwywyd dan amod 4 wedi ei wneud yn unol gyda'r cynllun a gymeradwywyd.<br>RHESWM - i sicrhau bod unrhyw lygriad yn cael ei drin yn briodol.<br>1. Nodwch os gwelwch yn dda y caiff y datblygiad hwn ei ddraenio ar system ar wahân. Am wybodaeth bellach cysylltwch gyda New Development Consultants ar 01492 543950.<br>2. Yn ôl cofnodion y New Development Consultants, mae carthffosydd cyhoeddus yn croesi'r safle fel a nodwyd ar y cynllun sydd ynghlwm. Bydd angen penderfynu ar union linell y carthffosydd ar y safle a bydd angen cynal stribed rhyddfraint/cynnal a chadw 3m bob ochr i'r carthffosydd (h.y. ni ddylid codi adeilad o fewn 3m i'r carthffosydd).<br>3. Tybir bod y safle hwn wedi ei halogi oherwydd bod gweithrediadau tirlenwi wedi digwydd ar y safle yn y gorffennol. Dylech fod yn ymwybodol bod cyfrifoldeb am ddatblygiad diogel y safle yn gorwedd gyda'r datblygydd. Os gwelwch yn dda, talwch sylw penodol i amodau 4 ac 8 yn y caniatâd cynllunio. |
| 42/2000/1041/PO | (Datganodd y Cynghorydd R W Hughes ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth arno).<br>Datblygu 0.02 hectar o dir trwy adeiladu 1 ty annedd (Cais amlinell) ar dir yn cyffinio Santoy, Stryd Fawr, Dyserth, Y Rhyl. |
| 42/2000/1093/PF | Adeiladu un bynglo dormer ac adeilad mynediad newydd i gerbydau ym Mryn Estyn, Bryn y Felin, Dyserth, Y Rhyl. |
| 43/2000/1105/PF | (Datganodd y Cynghorydd R W Hughes ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth arno). Gosod 1 antena ar fast presennol ar gyfer system galw criw'r RNLI ar Orsaf Dargludo NTL, Gwaenysgor, Y Rhyl.<br>(Ymatalodd y Cynghorydd A.E. Fletcher-Williams rhag pleidleisio ar y cais hwn). |
| 43/2001/0019/PF | (Cyn belled â na dderbynnir unrhyw gyflwyniadau pellach yn codi materion cynllunio nas trafodwyd yn yr adroddiad erbyn 1af Chwefror 2001) Ar ôl ystyried cywiriad i'r adroddiad (mae'r eiddo agosaf 60m i ffwrdd) ac un llythyr ychwanegol oddi wrth y Perchennog/Ddeiliad, Gas House, Gas Works Lane, Prestatyn.)<br>Gosod twr rhwyllwaith 18m o uchder, 6 antena, 3 dysgl microdon, cabanau offer a chompownd wedi ei ffensio yn Hapgoods, Gas Works Lane, Prestatyn. |

YN AMODOL ar Amod newydd rhif 4:
4.Dylai'r mast a ganiateir trwy hyn fod o liw llwyd canol (BS 10A05) a'r cabanau offer yn wyrdd (BS 12B27) oni chytunir fel arall yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.
RHESWM - er budd mwynderau gweledol yr ardal.
(Dymunodd y Cynghorydd N Hugh Jones gael nodi iddo bleidleisio yn erbyn y cynnig hwn)

45/2000/1086/PC — Cadw ardal nwyddau dan do i'r ochr a man storio dan do yng nghefn eiddo adwerthu, cadw newidiadau i ffrynt y siop a newid defnydd rhan o'r llawr cyntaf yn swyddfeydd yn 36 Tynewydd Road, Y Rhyl.

(ii) Caniatâd Adeilad Rhestredig i CADW

02/2000/1118/LB — Arddangos Plac Gwybodaeth ar du blaen Banc y National Westminster ccc, St. Peters Square, Rhuthun.
YN AMODOL ar Amod newydd rhif 4 a Nodyn newydd i'r Ymgeisydd, rhif 1.
4.Ni ddylid gosod y plac nes ceir cymeradwyaeth ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ynglyn â lliw y llythrennau a'r logos.

1.Fe'ch cynghorir nad yw rhoi caniatâd cynllunio adeilad rhestredig yn cyfleu awdurdod yr Awdurdod o gywirdeb hanesyddol neu gywirdeb arall y testun ar y plac, a dylech gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod hyn yn briodol o ystyried lleoliad amlwg yr adeilad.

(iii) Gwrthod

| Rhif y Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 12/2000/0546/PF | (Ar ôl ystyried newid yn yr adroddiad - Nid oes unrhyw ganiatâd cynllunio wedi ei ddileu).<br>Adeiladu ty annedd ar wahân a llunio mynediad newydd i gerbydau ar Lain 1, Tir Gyferbyn â'r Gyfnewidfa Ffôn, Clawddnewydd, Rhuthun.<br>YNAMODOL ar Reswm Diwygiedig rhif 1 ar gyfer gwrthod.<br>1.Barn yr Awdurdod Cynllunio Lleol yw bod rhyddhau'r tir i ddibenion preswyl y tu allan i ffin ddatblygu Clawddnewydd fel a ddiffiniwyd yng Nghynllun Lleol Dosbarth Glyndwr, fel a fabwysiadwyd, yn cynrychioli ehangiad annerbyniol tir y pentref ac ni ellid ei gyfiawnhau cyn ystyried Cynllun Datblygiad Unedol Sir Ddinbych; yn enwedig oherwydd (i) mae gwrthwynebiad heb ei ddatrys i gynnwys y tir yng nghefn safle'r cais o fewn y ffin ddatblygu, a (ii) mae dau safle arall yng Nghlawddnewydd syn destun gwrthwynebiadau heb eu datrys yn gofyn am gynnwys tir o fewn y ffiniau datblygu. Byddai rhoi caniatâd yn gynamserol i gynnydd y Cynllun Datblygiad Unedol ac yn niweidio ei ganlyniad wrth ragbenderfynu penderfyniadau ar y strategaeth ddatblygu, graddfa a lleoliad datblygiad newydd. |
| 45/2000/1022/AD | (Datganodd y Cynghorydd W.G. Thomas ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y siambr yn ystod y drafodaeth arno.)<br>Cadw 12 Bwrdd Arwyddion ac arddangos 8 bwrdd arwyddion (rhannol ôl-weithredol) yng Nghlwb Golff Y Rhyl, Ffordd Arfordir Y Rhyl, Y Rhyl. |
| 47/2000/1048/PO | (Datganodd y Cynghorydd R.Ll. Williams ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth arno).<br>Datblygu 0.05 hectar o dir trwy godi un ty annedd gweithiwr amaethyddol (cais amlinell) yn Plas yn Cwm Bungalow, Rhuallt, Llanelwy. |

(b) *Er gwaethaf argymhellion y Swyddogion, CANIATÁU'R cais canlynol am y rheswm a nodir:-*

| Rhif y Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 45/2000/0916/PO | Datblygu 0.09 hectar o dir trwy godi 1 Bynglo (cais amlinell) ar dir yng nghefn 70 Ffordd Dyserth, Y Rhyl.<br>Cymeradwywyd y penderfyniad, a oedd YN GROES i argymhelliad y Swyddogion, am y rheswm canlynol:-<br>1.Ystyrir bod y safle yn ddigon mawr i gynnwys ty annedd ac mae wedi ei sgrinio yn ddigonol rhag anheddau eraill i gadw preifatrwydd.<br>YN AMODOL ar Amodau newydd 1-4.<br>1.Rhaid cael cymeradwyaeth ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar ddyluniad a golwg allanol yr adeilad(au) a thirweddu'r safle (a elwir o hyn allan yn faterion neilltuedig) cyn cychwyn ar unrhyw ddatblygiad.<br>2.Rhaid gwneud cais i gymeradwyo'r materion neilltuedig i'r Awdurdod Cynllunio Lleol cyn diwedd tair blynedd o ddyddiad y caniatâd hwn.<br>Dylid cychwyn ar y datblygiad a ganiateir trwy hyn naill ai cyn diwedd pum mlynedd o ddyddiad y caniatâd hwn neu cyn diwedd dwy flynedd o ddyddiad cymeradwyo'r olaf o'r materion neilltuedig i'w cymeradwyo, pa bynnag gyfnod yw'r hwyraf.<br>3.Dylid gwarchod unrhyw goed a gwrychoedd i'w cadw fel rhan o'r datblygiad yn ystod y gwaith o glirio'r safle a'r gwaith adeiladu gan ffens 1 medr o uchder i'w godi 1 medr y tu allan i gyfyngiadau pellaf y canghennau, neu yn unol gyda chynllun arall a gytunir yn ysgrifenedig gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol; ni ddylid llosgi unrhyw ddeunydd adeiladu neu erthyglau o unrhyw ddisgrifiad na'u gosod ar y ddaear sydd rhwng y goeden neu wrych a ffens o'r fath, ac ni ddylid codi neu ostwng lefel bresennol y tir yn yr ardaloedd hyn, ac ni ddylid cloddio ffosydd neu le i bibellau heb ganiatâd ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol ymlaen llaw.<br>4.Bydd yr adeilad(au) arfaethedig i'w codi ar y safle fod yn rhai un llawr yn unig, gyda'r holl ystafelloedd y bydd pobl yn byw ynddynt ar lefel y ddaear. |

(c) *Er gwaethaf argymhelliad y Swyddogion, GWRTHOD y cais canlynol am y rhesymau a nodir:-*

| Rhif y Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 45/2000/1019/PF | (Ar ôl ystyried dau lythyr ychwanegol oddi wrth yr Ymgeisydd a Fforwm Busnes Y Rhyl).<br>Newid defnydd o le adwerthu gwag i arcêd difyrion tras yn Uned F, Pentre'r Plant, Rhodfa'r Gorllewin Y Rhyl.<br>Cymerwyd y penderfyniad, a oedd YN GROES i argymhelliad y Swyddogion, am y rhesymau canlynol:-<br>Byddai'r cynnig, sydd angen trwydded hapchwarae, yn debyg i arcêd difyrion. Byddai defnyddio'r adeilad fel hyn yn groes i Bolisi S16 o Gynllun Lleol Bwrdeistref Rhuddlan sy'n tybio yn erbyn arcêd difyrion y tu allan i ardaloedd penodol ar Rodfa'r Gorllewin, a fyddai'n mynd yn groes i gymeriad a swyddogaeth deuluol Pentre'r Plant a Rhodfa'r Gorllewin. |

*(ch)* *Gohirio'r ceisiadau canlynol er mwyn galluogi ymgymryd ag ymweliadau safle am y rhesymau a nodir:-*

| <u>Rhif y Cais</u> | <u>Disgrifiad a Lleoliad</u> |
|---|---|
| 05/2000/0909/PF | (Datganodd y Cynghorydd Selwyn Thomas ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth arno).<br>(Ar ôl ystyried cynllun diwygiedig a ddosbarthwyd yn y cyfarfod a newid i'r adroddiad - bu newidiadau perthnasol mewn amgylchiadau a pholisi ers 1978)<br>Safle carafanau gwersylla a charafanau teithiol trwy gydol y flwyddyn yng Nghae O.S. rhif 6752 (i'r De o Ben y Bont) i'r Gogledd o'r A5 ar y B5437, Carrog, Corwen. |
| 45/2000/1113/PS | (Datganodd y Cynghorydd A.E. Fletcher-Williams ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth arno).<br>(Ar ôl ystyried cywiriad i'r adroddiad - (cynyddu nifer o 30 i 40) ac un llythyr ychwanegol oddi wrth y Swyddog Priffyrdd.)<br>Amrywio amod rhif 1 caniatâd cynllunio cyf. 45/904/97/PF i ganiatáu cynnydd yn y nifer o blant o 40 i 59 yn 85 Ffordd Dyserth, Y Rhyl.<br>(Pleidleisiodd y Cynghorydd M Ll Davies o blaid y cais uchod). |

*(d)* *Gohirio'r ceisiadau canlynol am y rhesymau a nodir:-*

| <u>Rhif y Cais</u> | <u>Disgrifiad a Lleoliad</u> |
|---|---|
| 43/2000/1153/PC | Cadw ffrynt siop newydd (cais ôl-weithredol) yn 79 Stryd Fawr, , Prestatyn.<br>RHESWM - i ganiatáu trafodaeth bellach. |
| 43/2000/1154/AD | Cadw 2 arwydd ffasgia a oleuir yn fewnol (cais ôl-weithredol) yn 79 Stryd Fawr, Prestatyn.<br>RHESWM - i ganiatáu trafodaeth bellach. |
| 44/2000/1085/PF | Adnewyddu caniatâd cynllunio cyf: 2/RHU/31/96 i drosi uned siop llawr daear yn fflat oll-gynhwysol yn Elliott House, Ffordd Y Rhyl, Rhuddlan, Y Rhyl<br>RHESWM - i eglurhau materion polisi. |
| 47/2000/1129/PF | Adeiladu 3 ty annedd ar wahân, adeiladu mynediad newydd i gerddwyr/cerbydau a gosod tanciau septig newydd ar ran o gae rhif 1685 yn cyffinio Mount View, Holywell Road, Rhuallt, Llanelwy.<br>RHESWM - i ail-drafod manylion yn ceisio lleihad mewn maint a graddfa'r anheddau. |

*(dd)* *Tynnwyd yn ôl y cais canlynol gan yr Ymgeisydd:-*

| <u>Rhif y Cais</u> | <u>Disgrifiad a Lleoliad</u> |
|---|---|
| 15/1999/0155/PF | Adeiladu ffordd chwarel fewnol er mwyn hwyluso echdynnu deunydd a ganiateir yn Chwarel Pant Y Gwylanod, Llanarmon-yn-Ial, Yr Wyddgrug. |

**1018. <u>TREFN I BENDERFYNU AR GEISIADAU AM WEITHIO Y TU ALLAN I ORIAU ARFEROL AR SAFLEOEDD MWYNAU YN SIR DDINBYCH</u>**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth yr Aelodau i fabwysiadu trefn ar gyfer penderfynu ar geisiadau am weithio y tu allan i oriau arferol mewn ymgynghoriad gyda Chadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a'r Aelod Lleol

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo mabwysiadu'r drefn ganlynol i benderfynu ar geisiadau i weithio, dros dro, y tu allan i oriau arferol ar safleoedd mwynau yn Sir Ddinbych nad ydynt yn golygu dileu neu newid amodau cynllunio:-*

*Trefn arfaethedig*

*1. Dylid delio gyda cheisiadau i weithio y tu allan i oriau arferol am gyfnodau dros dro hyd at 4 wythnos mewn ymgynghoriad gyda Chadeirydd neu Is-Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio, yr Aelod Lleol, y Cyngor Cymuned a Chadeirydd y Pwyllgor Cyswllt.*

*2. Dylid adrodd ar bob penderfyniad er gwybodaeth i'r Pwyllgor Cynllunio.*

**1019. YMRWYMIAD ADRAN 106: DATBLYGIAD PRESWYL YN VICARAGE ROAD, LLANGOLLEN**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio ei adroddiad (a ddosbarthwyd eisoes) yn gofyn am benderfyniad gan Aelodau ar gais gan gyfreithwyr y datblygwyr i newid cymal a gynhwyswyd yn yr Ymrwymiad drafft Adran 106 mewn perthynas â symud cerbydau contractwyr/adeiladu mewn cysylltiad ag adeiladu datblygiad preswyl newydd a mynediad newydd cysylltiedig i gerbydau ar dir oddi ar Vicarage Road, Llangollen.

| Ceisiadau Rhif | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 03/740/97/PF a 03/846/97/PF :- | (Ar ôl ystyried unarddeg llythyr ychwanegol oddi wrth<br><br>Cyngor Tref Llangollen<br>Martin Jones AS, Ty'r Cyffredin, Llundain, SW1A 0AA<br>K. Sinclair AM, 6 Oak Mews, Oak Street, Llangollen<br>M.A. Gosling & R.C. Millward-Hoplens, 3 Castle Buildings, Llangollen<br>M. Miller Jones, May Tree, Fron Bache, Llangollen<br>Mr. & Mrs. J.C. Hawkes, Hollytops, Fron Bache, Llangollen<br>P. Norbray, Hillbrook, Willow Street, Llangollen<br>M. Jenkins, Fron Hyfryd, Vicarage Road, Llangollen<br>E. Taylor, Ty Millie, 9 Willow Street, Llangollen<br>Mr. & Mrs. R.W. Woodhall, Bache Isa, Willow Street, Llangollen<br>Cymdeithas Ddinesig Llangollen, Wharf Cottage, Wharf Hill, Llangollen<br>Yr un llythyr yw'r ohebiaeth wedi ei rhifo 3-10, wedi eu llofnodi a'u hanfon yn unigol gan yr unigolion/cyrff a enwyd.<br>(i) Adeiladu 47 ty annedd unigol, adeiladu mynediad newydd i gerbydau a cherddwyr;<br>(ii) Adeiladu tri annedd (LLeiniau 48, 49 a 50) ar dir oddi ar Vicarage Road, Llangollen. |

Er gwaethaf argymhellion Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio:-

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cyngor yn gwneud Cytundeb dan Adran 106 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gyda'r ymgeisydd ar delerau a awdurdodir gan Gofnod 1084 o gyfarfod y pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 19eg Ebrill 2000.*

Dymunodd yr Aelodau canlynol gael nodi iddynt bleidleisio yn unol gydag argymhellion y Swyddogion ac yn erbyn y cynnig i gadw telerau'r Cytundeb 106 yn unol â Chofnod 1084 (19eg Ebrill 2000):-

F.D. Jones, K.E. Wells, P. Douglas, K.N. Hawkins, R.E. Jones, M.Ll. Davies ac F. Shaw.

**1020. COSTAU APÊL: YSGOL HOWELLS, DINBYCH**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio ei adroddiad (a ddosbarthwyd eisoes) yn hysbysu'r Aelodau o ganlyniad y Gwrandawiad ar benderfyniad y Pwyllgor Cynllunio i wrthod caniatâd cynllunio (yn groes i argymhelliad swyddogion) ar gyfer newid defnydd tir amaethyddol i ddefnydd ysgol ar gyfer pori

ceffylau, a goblygiadau ariannol y penderfyniad hwn, gan nodi:-

(i) yn ystod y gwrandawiad, bod yr apelydd wedi gwneud cais am ddyfarnu costau yn erbyn y Cyngor (gyda chostau ond yn cael eu dyfarnu lle ystyriwyd bod un ochr wedi ymddwyn yn afresymol ac wedi achosi costau diangen i'r ochr arall);

(ii) bod yr Arolygydd yn ystyried y dylid dyfarnu costau yn erbyn y Cyngor, a

(iii) dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio bod cais am gostau o £10363.50 (gan gynnwys TAW) wedi ei dderbyn gan yr apelydd.

Daeth Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio i'r casgliad y dylid, gyda phob dyledus barch, dysgu gwersi o benderfyniad yr Arolygydd Cynllunio. Dywedodd yr Arolygydd yn benodol:-

(i) nad oes gan y Cyngor hawl i ddibynnu ar dystiolaeth trydydd parti, na thystiolaeth achlust i amddiffyn ei resymau dros wrthod, er bod hyn yn ystyriaeth berthnasol yn yr apêl;

(ii) ni ddylai'r Cyngor ddisgwyl i'r un swyddog cynllunio a oedd wedi argymell caniatâd amddiffyn eu gwrthodiad ar apêl i osgoi ei roddi ef/rhoddi hi mewn sefyllfa anghynaladwy, a

(iii) y dylai'r Cyngor ystyried yn ofalus iawn y dystiolaeth a oedd ar gael i gefnogi rhesymau dros wrthod ac a ellid defnyddio unrhyw amodau cynllunio a fyddai'n goresgyn neu leihau yn ddigonol unrhyw wrthwynebiadau.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad a chydnabod y cynnwys a bod y swyddogion yn ystyried rhoi diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor Cynllunio ar benderfyniadau Apêl.*

**1021. <u>MATERION GORFODI</u>**

(i) <u>ENF/466/00/N</u>

(Datganodd y Cynghorydd W.G. Thomas ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth arno).

Arddangos 12 arwydd heb awdurdod yng Nghlwb Golff Y Rhyl, Ffordd yr Arfordir, Y Rhyl.

***PENDERFYNWYD*** *rhoi awdurdod i:-*

*(a) gychwyn camau erlyn neu gamau priodol eraill dan y Deddfau Cynllunio gan gynnwys cyflwyno Hysbysiad Atal os tybir bod angen hynny i sicrhau symud ymaith yr arwyddion heb awdurdod a*

*(b) dal yn ôl unrhyw gamau ffurfiol am gyfnod o 8 wythnos o ddyddiad y penderfyniad i wrthod caniatâd hysbysebu, neu nes cymerir penderfyniad ar unrhyw apêl yn erbyn y penderfyniad i wrthod caniatâd hysbysebu.*

(ii) <u>ENF/334/00/N</u>

Ffrynt siop heb awdurdod a 2 arwydd ffasgia a oleuir yn fewnol yn 79 Stryd Fawr, Prestatyn.

***PENDERFYNWYD*** *gohirio'r mater nes ceir canlyniad Ceisiadau Cynllunio cysylltiedig.*

(iii) <u>ENF/68/00/N</u>

Tir yn cyffinio Bron Berllan Ucha, Ffordd Hiraddug, Dyserth.

1. Newid defnydd tir heb awdurdod yn ganolfan HGV

2. Newid lefelau tir, gosod cynwysyddion heb awdurdod

***PENDERFYNWYD*** *rhoi awdurdod i:-*

*(a)* *gyflwyno Hysbysiad Gorfodi i sicrhau bod y defnydd heb awdurdod yn dod i ben a symud yr holl eitemau oddi ar y tir, a*

*(b)* *cychwyn camau erlyn neu gamau priodol eraill dan y Deddfau Cynllunio yn erbyn y person neu bersonau i'r rhain y cyflwynir yr Hysbysiad neu yn erbyn y rhain y cymerir camau cyfreithiol os methant â chydymffurfio gyda'r gofynion hyn.*

**1021. DYDDIAD YMWELIADAU SAFLE**

Cyflwynwyd adroddiad ysgrifenedig Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio (a ddosbarthwyd eisoes) yn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer ymweliadau safle yn deillio o Eitem rhif 2 at y Rhaglen i'w cynnal ar ddydd Llun 5ed Chwefror 2001 ac yn nodi aelodaeth bresennol y Panel Ymweliadau Safle.

***PENDERFYNWYD*** *cynnal yr ymweliadau safle a gymeradwywyd ar ddydd Llun, 5ed Chwefror 2001.*

**1022. RHESTR O GEISIADAU A GAFODD EU TRIN DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio ei adroddiad (a ddosbarthwyd eisoes) yn nodi ceisiadau am Ganiatâd Cynllunio a benderfynwyd ganddo ef dan bwerau dirprwyedig rhwng 2il Rhagfyr 2000 a 12fed Ionawr 2001.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

**1023. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *dan Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem ganlynol oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig fel a ddiffinnir ym Mharagraff 7 o Ran 1 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn cael ei datgelu.*

**1024. GWERTHUSIADAU ADAS**

Gwerthusiadau Amaethyddol yn delio gyda:-

Eitem 2(7) 15/2000/1046/PO Fferm Rhiw Ial, Llanarmon yn Ial

Eitem 2(22) 47/2000/1048/PO Bynglo Plas yn Cwm, Rhuallt, Llanelwy

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiadau.*

Daeth y cyfarfod i ben am 1.20 p.m.

************